

## **Noson Gwricwlaidd**

Ar Dachwedd 17, cafwyd noson gwricwlaidd hynod lwyddiannus ynglŷn â darllen. Roedd cyfle i rieni fynd o amgylch yr ysgol er mwyn edrych a gweld ein hadnoddau, gweithgareddau darllen ac enghreifftiau o'r profion cenedlaethol. Diolch yn fawr iawn i'r rhieni am fynychu ac am eu cefnogaeth.

## **Paid Cyffwrdd Dweud**

Daeth tîm 'Paid Cyffwrdd Dweud' i'r ysgol eleni i siarad â'r plant am beryglon cyffwrdd a meddyginiaeth. Roedd y cyflwyniad yn fywiog ac yn llawn hiwmor a chafwyd ymateb brwdfrydig iawn gan y plant i gyd.

## **Eisteddfod Dyffryn Ogwen**

Da iawn i bawb o Ysgol Tregarth a ymdrechodd yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Yn sicr roedd safon y cystadlu yn uchel iawn, perfformiadau'r plant i gyd i'w canmol. Llongyfarchiadau i'r canlynol: Judah Parry 3ydd Unawd Meithrin, Esther Parry 3ydd Unawd Blwyddyn 2, Parti Llefaru 3ydd, Grŵp Offerynnol 2ail.

## **Ffair Nadolig**

Cafwyd ffair Nadolig llwyddiannus iawn eleni. Diolch o galon i'r Cyfeillion newydd a oedd wedi gweithio'n galed iawn i sefydlu pwyllgor a threfnu'r ffair. Diolch yn arbennig i Mrs Jane Parry am drefnu'r cyfan. Diolch i'r cwmnïa lleol am eu rhoddion a chefnogaeth. Diolch i chi gyd am gefnogi a llwyddwyd i godi dros £600. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod eto i drefnu digwyddiad arall yn fuan - croeso cynnes i bawb.

## **Gala Nofio'r Urdd**

Dydd Sadwrn Tachwedd 21ain bu disgyblion Ysgol Tregarth yn cystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd ym mhwill nofio Bangor. Nofiodd pawb yn arbennig o dda ac roedd yn brofiad gwerthfawr iawn i'r plant. Llwyddodd Lola o flwyddyn 4 i ennill y ras gefn ac yn mynd i'r genedlaethol yng Nghaerdydd yn Ionawr. Camp arbennig iawn o gofio ei bod yn cystadlu yn erbyn plant Eryri gyfan!

## **Plant Mewn Angen**

Cafwyd diwrnod o hwyl yn yr ysgol i godi arian at elusen Plant Mewn Angen. Cafodd pawb y cyfle i ddod i'r ysgol wedi gwisgo eu pyjamas a gwneud gwallt gwirion. Roedd yr ysgol yn llawn o wahanol gymeriadau. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu a'n helpu i godi £121.96 at yr achos.

## **Gwobr Aur y Siarter Iaith**

Fel cydnabyddiaeth o'r holl waith caled sy'n cael ei wneud yn gyson yma i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gydol y dydd cyflwynwyd tystysgrif Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i'r ysgol yn ddiweddar. Erbyn hyn mae'r disgyblion, y gweithlu, y rhieni a'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mewn Undod Mae Nerth!